Tachwedd 2018 _Layout 1 18/10/2018 10:32 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 40. RHIF 6 TACHWEDD 2018 50c

# DONIAU A DANIWYD YM MIS MEDI



*Alejandro Jones*



*Alejandro Jones a'r teulu gyda Roderick a Norma Owen*



*Mrs Anne M. Jones, Llywydd y Gymanfa Ganu ar Medi 30ain*



*Cantorion gorau Cymru!*
*D. Ben Rees a Bryn Terfel yn y Ganolfan ar Sadwrn, 22 Medi*

**YN Y RHIFYN HWN -**
Golygyddol (Dinesydd er Anrhydedd); Cymanfa Ganu Dosbarth Lerpwl; Newyddion Seion, Bethel, Bethania, Oaker Avenue, Cymry Birkenhead; Cymry Lerpwl. Ysgrif Goffa i Enid Jones. Cystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl.

Golygyddol

# DINESYDD ER ANRHYDEDD

## - gan D. Ben Rees

Ni feddyliais erioed y byddwn yn derbyn llythyr oddi wrth Faer Lerpwl, Joe Anderson, yn fy hysbysu bod arweinwyr y ddinas, o bob plaid, wedi penderfynu yn unfrydol fy ethol yn Ddinesydd er Anrhydedd. Yn ychwanegol byddwn yn cael llofnodi Tystysgrif y Dinasyddion er Anrhydedd yn Neuadd y Ddinas. Erbyn hyn fe gynhelir y seremoni ar Nos Fercher, 3 Hydref a rhoddwyd i mi yr hawl i wahodd hanner cant yn unig o'r teulu, ffrindiau, cyd-weithwyr a chefnogwyr. Nid oedd hynny'n hawdd ond wrth ddilyn patrwm y mae'n bosibl i gyflawni hyn, a chafodd pob un oedd wedi bod yn rhan o'r gefnogaeth gynnar gyfle i ddod, ond fel y digwydd bob amser, methodd aml un am ei bod wedi trefnu teithio i'r Unol Daleithiau, Rwsia, Sbaen a llawer lle arall.

Rhoddodd y Dr. John G. Williams syniad da o'r hyn a ddisgwylir gan y person a gaiff yr anrhydedd arbennig yn rhifyn diwethaf o'n papur bro. Golyga nid yn unig gyfrannu i fywyd Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau ond llafur cariad i fywyd y ddinas fywiog, anghyffredin, a hynny dros gyfnod o 50 mlynedd neu efallai llai!

Gan fy mod yn enedigol o Geredigion nid oedd Lerpwl yn ddinas a olygai lawer i mi. Nid i Lerpwl yr ymfudai fy nghyfoedion ond i Lundain. Yno y ceid bechgyn Llanddewi Brefi ers cenedlaethau, er fod rhai wedi symud i Lerpwl i werthu llaeth ac i blismona. A phan ddaeth Meinwen a minnau a Dafydd a'm mam-yng-nghyfraith i Lerpwl dod a wnaem i ddinas oedd yn gwbl ddieithr. Ond ar amrantiad fe gawsom ein calonogi gan agwedd y trigolion, ei caredigrwydd, ei hiwmor, ei balchter o'r ddinas a'r ddwy Eglwys Gadeiriol a'r ddau dîm pêl-droed. O fewn wythnosau yr oeddwm wrthi yn dod i nabod y Sgowsers a'r Cymry da oedd wedy fy ngalw o gymuned y glo i weinidogaethu.

Daeth cyfrifoldebau y tu allan i gylch y capel i mi yn y cyfnod pell hwnnw erbyn hyn. Rhoddwyd i mi gyfrifoldeb mawr gan yr Eglwysi Rhyddion i fod yn Lywydd a thrwy hynny dod i adnabod arweinwyr yr Eglwys Anglicanaidd, Pabyddol a'r holl enwadau. Derbyniais wahoddiadau i'r gweithgarwch eciwmenaidd a chyfle i sefydlu Cyngor Eglwysi Mossley Hill.

Ond nid cysylltu gyda'm cyd-Gristnogion a wnaethum ond cael fy nenu i gymuned Iddewig y ddinas, a chyn bo hir yr oedd ein meibion yn mynychu yr Ysgol Iddewig y Brenin Dafydd a fu o fantais fawr iddynt. Gwahoddwyd fi yn gyson gan yr Iddewon i annerch ei cyfarfodydd cyhoeddus yn Neuadd St. George's ar gwestiwn Semitiaeth a'r erlid ar y gymuned. Deuthum i wasanaethu Cyngor Cristnogion ac Iddewon ac yn 1970 yr oeddwn yn gwahodd Ysgrifennydd y mudiad y Tad Foy o Bishop Eton i annerch yn ein capel. Ffromiodd dau deulu fy mod yn rhoddi lle i Babydd i ddod i'r Capel. Ni fu Pabydd erioed yno cyn hynny. Roedd Lerpwl y dwthwn hwnnw yn enwog am ragfarn rhwng Pabyddion a Phrotestaniaid fel y mae Glasgow a Belfast heddiw. Cefais ran dros y cenhedlethau i ymlid yr ysbryd cul, anghristnogol hwnnw ac ymuno gyda'r Esgob David Sheppard (1929-2005) a'r Archesgob Derek Worlock (1920-1996) yn y dystiolaeth oedd yn mynnu estyn deheulaw cymdeithas i bobl o bob cefndir.

Gwneuthum ymdrech i ddod i adnabod y ddinas, ac yn fwy na dim, ymateb i wahoddiadau cymdeithasau lu i annerch yn ei gyfarfodydd, Probus, Rotari, mudiadau cymunedol, fel Woolton Society, mudiadau hanesyddol a byddai'r cyfan hyn yn lafur cariad. Ond yr oeddwn yn elwa yn fawr am fy mod yn codi pontydd ym mhob man a fu yn fuddiol gan greu ysbryd da rhwng y Cymry a gweddill y cymunedau. Gwnaethum ymdrech i ddeall y gymuned Gwyddelig a chanolbwyntio ar ei hanes nodedig hwythau, ac yn arbennig rhai o'i harweinwyr fel Monsignor James Nugent a'r Aelod Seneddol, T. B. O'Connor. Trwy fod yn arweinydd yr Eglwys Rhyddion daeth gwahoddiadau i Neuadd y Ddinas yn gyson oddi ar 1972 a daethum i adnabod pobl ddiddorol fel Syr Ken Dodd, Margaret Simey, Peter Kilfoyle, Edwina Currie, Alison Steadman a Steven Gerrard,

Roedd gan Lerpwl ddwy elfen oedd yn fy mhlesio'n fawr, sef yr elfen Celtaidd a'r elfen gosmopolitan. Ar ôl cael gwahoddiadau gan fudiadau addysgol Lerpwl deuthum yn falch dros ben o'r elfen Geltaidd a mynd ati i gasglu deunydd am yr Albanwyr a gyflawnodd gymaint yn Lerpwl, y Gwyddelog, y Cymry a'n cefnderwyr o Gernyw a Ynys Manaw. Ond pan euthum yn aelod o fudiad Rotari cefais gyfle pellach yng nghlwb Toxteth ac ar ôl hynny Lerpwl i adnabod arweinwyr y mudiadau lleiafrifol. Deuthum yn gyfarwydd iawn a'r gymdeithas Pwyleg a pharatoi darlithiau ar y gymuned Sineaidd. Ond deuthum hefyd i ganol y mudiadau elusennol, a chael cyfle i drefnu pob math o weithgarwch, fel Cyngherddau Carolau, a gweithio i leihau afiechyd poenus polio. Y tu fewn i'r teulu, ar ôl ymweliad Hefin â slymiau Nairobi, cychwynwyd elusen sydd yn dal mewn bodolaeth, Gobaith mewn Gweithrediad. Hefin a minnau oedd sylfaenwyr yr elusen ond yn fuan cawsom gymorth y Cymry, yn arbennig cyfraniad Gareth James fel Trysorydd, Goronwy Owen fel Cadeirydd, ac yn ei ddilyn Humphrey Wyn Jones. Ond daeth cymorth o gymuned Lerpwl, o Ysgol y Brenin Dafydd i helpu elusen Gristnogol a ganolbwyntiai ar anghenion cyfandir Affrig.

Nid wyf eto wedi ymddeol ond fe ddaw hynny yn y blynyddoedd nesaf hyn, ond gobeithiaf na fyddaf yn ymddeol o'm cyfrifoldeb fel Dinesydd Dinas Lerpwl, dinas sydd mor arbennig.

Cofiaf yn dda eiriau gŵr yr oedd gennyf barch mawr iddo, Bill Shankley (1913-1981), Y mae ef yn esiampl inni oll, gan ei fod bob amser yn ysbrydoli ei chwaraewyr. Cyn y gêm am Gwpan Pêl-droed Lloegr yn 1965 dywedodd wrth dîm Lerpwl:

*"You are the best. Leeds are honoured to be on the same pitch"*. Braf oedd cael mynychu Anfield yn y blynyddoedd 1968-1975 yng nghwmni R. Glyn Williams. Roedd Shankley yn y cyfnod hwnnw wedi casglu at ei gilydd genhedlaeth newydd o chwaraewyr. Cawsom ein cyfareddu yn 1972-73 gan ennill pencampwriaeth y Gynghrair a'r teitl UEFA ac ennill y Cwpan eto yn 1974. Onid ef a ddywedodd:

*"Some people believe football is a matter of life and death. I can assure you it is much, much much more important than that"*.

Ond y geiriau yr wyf yn ei gofio o'i enau yw y rhain:

*"I had to say I was retiring, though I believe you retire when you're in a coffin and the lid is nailed down and your name is on it …"*

Mae yn fy nhyb i yn go agos ati. Diolch i chwi am eich cyfarchion niferus, a'ch llythyrau. Bu yn brofiad bythgofiadwy.

*YSGRIF GOFFA:*

# Mrs ENID JONES
## (1923 - 2018), Broadgreen, Lerpwl

**Ym marwolaeth Mrs Enid Jones collodd y gymdeithas Gymraeg yn Lerpwl un a fu mor barod ei chyfraniad i'n diwylliant a'n traddodiadau. Merch ydoedd i Elen a John Hughes, yn enedigol o Blaenau Ffestiniog, ac wedi cartrefu yn ardal Anfield ac yn aelodau teyrngar yng nghapel yr Eglwys Fethodistaidd Wesleaidd yn Oakfield. Yn y dau ddegau yr oedd Anfield yn ganolfan y Cymry a magwyd Enid a'i brawd Idris yng nghanol bwrlwm y bywyd cymdeithasol Cymraeg. Ni fyddai Cymry ifanc yn mynychu Capel Oakfield heb i rieni Enid ei gwahodd hwy i'w cartref ac yn niwedd ei hoes a hithau wedi cael ei dal yn anghofrwydd y presennol byddai'n gysurus braf ar aelwyd Wylva Road a'i chyfoeswyr bore oes. Derbyniodd addysg yn lleol gan adael yr Ysgol a chael gwaith gan un o gwmniau Cymraeg Lerpwl, cwmni David Jones, gwerthwyr ffrwythau a chymwynaswyr mawr yn ei dydd. Gwnaeth ffrindiau oes yn y gweithle a soniai yn aml am y dyddiau dedwydd hynny.**

**Pan ddaeth yr Ail Ryfel Byd fe wirfoddolodd am wasanaeth ar y tir ymhlith y Land Army ac fel y dywedodd mewn sgwrs ddifyr yn ein Cymdeithas Lenyddol gobeithiai cael ei hanfon i Gymru, ond yn lle hynny anfonwyd hi i Norfolk ac yna i Lancaster. Ond bu'r profiad yn un hynod o dderbyniol. Daeth yn ôl i fwrlwm bywyd yr Aelwydydd ar y Glannau a gan ei fod hi mor amryddawn daeth yn un o'r sêr. Meddai ei lais godidog a chymerai ran yn Eisteddfod yr Aelwydydd. Cyrhaeddodd lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol a bu bron a chipio'r wobr ar ddau dro.**

**Yn y pum degau daeth Cymro annwyl o Bwllheli i'w bywyd, Ifan Edmund Jones ac fe'i priodwyd hwy yn 1958. Roedd Ifan yn aelod gwerthfawr o bob cymdeithas, yn ei waith, a'i gapel, a'r mudiadau diwylliannol. Er ei fod yn ŵr tawel, deuai i'w deyrnas pan chwaraeai y piano neu'r organ. Dysgodd Enid ddreifio car gan nad oedd diddordeb gan Ifan a bod angen un ar gyfer ei thad ag yntau yn cael trafferth i gerdded fel cynt i Oakfield. Daliodd Enid i weithio yn adran ariannol cwmni Sucline hyd nes y ganwyd mab Richard a merch Helen. A meddyliai y byd o'i theulu, ac ar 16 Ebrill 1994 priodwyd Helen gyda Richard Tate, a ganwyd iddynt dair merch, Jocelyn ac efeilliaid Imogen a Sophie. Daeth ei wyresau â chysur mawr iddi a byddai yn edrych ymlaen i ymweld â hwy a'i brawd Idris a'r teulu yn Ne Cymru.**

**Pan unwyd capeli yr Eglwys Fethodistaidd yn nechrau y saith degau penderfynodd Enid a Ifan ddod i Eglwys Heathfield Road a bu ei dyfodiad yn gymhorth amhrisiadwy. Daeth ei phriod yn un o'r organyddion a Enid yn athrawes Ysgol Sul bendigedig ar y plant lleiaf. Roedd gennym dîm ardderchog yn Ceri Roberts, Louie Jones, Nan Hughes Parry a Enid ac Alwena Davies. Daeth i gynorthwyo yn y Gorlan a dysgodd genhedlaethau o blant hanfodion y bywyd gwerthfawr sydd yn yr Efengyl. Meddyliai'r plant y byd ohoni, ac fe'i gelwid yn 'Auntie Enid' er mawr lawenydd iddi.**

**Daeth yn aelod o Barti Maesgrug ac yn barod bob amser i gymeryd rhan mewn cyfarfodydd diwylliannol ac yn yr oedfaon ar y Sul. Ni chafwyd neb mwy parod i gefnogi a phan ail sefydlwyd yr Eisteddfod yn 1976 daeth i'w elfen gan baratoi partïon canu ac yn arbennig dawnsio gwerin.**

**Mynnodd fod cystadlu ar gael. Cofiwn y tro diddorol hwnnw pan y trefnodd barti gyda Richard ynddo, parti arall a Helen ynddo, ac yn drydydd parti a hi ac Ifan yn aelodau ohono. Enid oedd yn hyfforddi y tri parti. Roedd ei gwyneb yn bictiwr pan rhoddodd y beirniad y wobr gyntaf i barti Richard, yr ail wobr i barti Helen a'r trydydd iddi hi a'i pharti.**

**Meddylir amdani fel un o gefnogwyr pennaf y dystiolaeth Gymraeg, Cristnogol. Gwerthfawrogai yr hyn a drefnid a daeth yn weithgar ym mhob cylch yn y Capel, yn arbennig y dystiolaeth genhadol. Bu yn amlwg iawn, hi a'i ffrind Ann Roberts yn Nghyfeisteddod Genhadol Chwiorydd Glannau Mersi, ac am flynyddoedd Enid oedd Trysorydd Cangen Genhadol Capel Bethel.**

**Meddai ar garedigrwydd naturiol a byddai'n ofalus o bobl oedd yn ddi-gefn a di-deulu. Cofiaf yn dda am Auntie Laura fel y gelwid hi, un a ddaeth yn gefnogydd i'n cyfarfodydd, cyngherddau ac yn arbennig berfformiadau'r plant ar drothwy'r Nadolig. Cofiaf hefyd am un arall a dderbyniodd gofal cariadus, hi oedd Auntie Doris.**

**Bu colli ei phriod Ifan ar 28 Gorffennaf 1993 yn gyfnod anodd ond trwy ofal y mab a'r ferch llwyddodd i wynebu ar fywyd yn gadarnhaol. Cadwodd ei chysylltiadau a'i ffrindiau. Byddai yn cyfarfod bob pnawn Sadwrn, hi a Dilys Evans, Gwen Owen, Ann Roberts, a gofalai fynd i aros i Sir Aberteifi, i Llanrhystud a Llannon gyda Anne Morgan, chwaer y diweddar Barchedig J. D. Eurfyl Jones, Aberdulas. Daeth y ddwy yn ffrindiau yn yr Ail Ryfel Byd a chadw cysylltiad agos ar hyd y blynyddoedd. Anfonwn ein cofion at Mrs Anne Morgan yn ei hiraeth am ffrind da.**

**Y mae gennyf atgofion lawer am y wraig dda hon, y croeso a dderbyniwn yn ei chartref yn Campbell Drive, yr hyfrydwch o'i chael hi ar bererindod i Ddwyrain Ewrop, y feistrolaeth oedd ganddi ar yr iaith Gymraeg a hithau heb erioed fyw yng Nghymru na derbyn addysg Gymraeg, Yn wir yr oedd ei Saesneg a'i Chymraeg o'r radd flaenaf. Yn y cartref byddai'r sgwrs yn felys, a gan fy mod yn hoff o gathod, yr oedd Campbell Drive yn nefoedd ar y ddaear gan fod y gath yn derbyn gofal arbennig.**

**Cadwodd Enid y ffydd Gristnogol a mynychodd yr oedfaon hyd y medrai. Ond gwelwyd ar ôl iddi groesi y naw deg oed bod hi'n anoddach arni, ac yn y cyfnod hwnnw soniai am y modd y llwyddodd Richard i ofalu amdani mewn modd mor annwyl a chydwybodol. Ni chafodd unrhyw fam well mab na merch na chafodd Enid Hughes Jones, ac fel ei Gweinidog, diolchaf am ei gofal caredig. Cysegrodd Richard ei fywyd y blynyddoedd olaf a chyfrifai hynny yn fraint. Gweddi Enid oedd:**

***I need Thy presence every passing hour;
What but Thy grace can foil the tempter's pow'r?
Who, like Thyself, my guide and stay can be?
Through cloud and sunshine, Lord, abide with me.***

**Bu'r cynhebrwng yn Amlosgfa Springwood ar bnawn Iau, 20 Medi am 3.30 o'r gloch o dan fy ngofal a daeth cynulleidfa deilwng ynghyd i dalu'r gymwynas olaf i un a fu yn rhan bwysig iawn o'n cymuned yn ninas Lerpwl. Ar wahân i gyfnod yn yr Ail Ryfel Byd treuliodd ei holl ddyddiau yn y ddinas ac yr oedd yn enghraifft da o un o Gymry Lerpwl ar ei gorau.**

***DBR***

Tachwedd 2018 _Layout 1 18/10/2018 10:32 Page 4

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

***Gair am fis Medi***

*Mis y cnau, mis cynhaeaf – mis gwair rhos*
*Mis y grawn melynaf,*
*Mis gwiw cyn gormes gaeaf,*
*Mis lliw'r aur, mis ola' Haf.*

Dyma englyn o waith Tilsli yn crynhoi y mis. Mae gweithgareddau y tymor wedi ail-gychwyn ac mae llawer i edrych ymlaen ato.

***Nos Lun, Medi 10fed.*** Cafwyd seiat i gychwyn tymor yr Hydref ar y teitl "Daearyddiaeth Uffern". Bu dyfalu ar ba drywydd y byddai'r gweinidog, Dr. D. Ben Rees yn ein harwain, tybed ai ar ein pennau i uffern! Ond cawsom ein harwain i ystyried y cymal 'uffern ar y ddaear'. Wyddom ni ddim am y tu hwnt i'r llen, ond mae llawer o genhedloedd ac unigolion wedi gorfod mynd drwy uffern ar y ddaear.

Meddyliwn am yr holl erchyllterau a fu yng ngwersyll Auschwitz, ac yn arbennig heddiw am yr hyn â ymlaen mewn gwledydd fel Syria a Yemen. Mae atgasedd cyd-rhwng gwledydd â'i gilydd, ac mae'r gair gwrth-semitiaeth yn codi'i ben bron yn ddyddiol ar y cyfryngau.

Mae rhai plant yn ein gwlad heddiw yn cael eu camdrin yn gorfforol a hynny yn gadael effaith parhaol arnynt wrth iddynt dyfu i fyny ac yn aml yn achosi salwch meddwl. Aed ymlaen i sôn am uffern o waith natur, effeithiau daeargrynfeydd, llifogydd, corwyntoedd a thanau. Rhoddodd pob un ei fewnbwn i'r drafodaeth yn ei dro a diolchwn i'n gweinidog am y paratoi a'r arweiniad.




***Y Pencampwyr – o'r chwith: Beryl Williams, Margaret Anwyl Williams, Rhiannon Liddell, Wena Evans, Nan H. Parry a'r cwis feistres, Anne M. Jones***

Roedd llawenydd mawr yn yr oedfa am Fedi'r 2il pan derbyniodd ein gweinidog Mrs Kathleen Norton, Woolton yn gyflawn aelod o Eglwys Bethel. Bu yn ffyddlon i Eglwys St. James, Woolton ac yn un o'r organyddion yno. Mae hi eisoes wedi gwneud ei hun yn gartrefol. Croeso mawr atom.

***Medi'r 17eg.*** Noson agoriadol y Gymdeithas Lenyddol ac mae yn draddodiad bellach i gael noson Cwis o dan ofal Mrs Anne M. Jones, Allerton. Mae hi wrth ei bodd yn paratoi y noson gyda chroesdoriad da o gwestiynau. Roedd pedwar tîm o bump aelod, a thîm Margaret Anwyl ddaeth yn fuddugol. Noson hwyliog a difyr dros ben. Diolch i Anne, i Devida am lywyddu'r noson ac i Gwenfil Bain, Lilian Coulthard ac Enid Pierce Hughes am y baned ar y diwedd.

Bu farw Mrs Enid Hughes-Jones, Broadgreen ar yr 11eg o Fedi yn 95 oed. Cofiwn amdani fel gwraig lawen a gwên bob amser ar ei hwyneb. Roedd yn wraig ddawnus ryfeddol a chyda brwdfrydedd heintus yn rhannu ei doniau canu a dawnsio gwerin yn y Gorlan a'r Ysgol Sul am flynydoedd lawer, Cydymdeimlwn â Richard y mab, Helen ei merch a Richard ei gŵr a'r wyresau Jocelyn, Sophie ag Imogen. Bu eu gofal o'u mam i'w hedmygu'n fawr. Bu ei harwyl pnawn Iau, Medi 20fed yn Amlosgfa Springwood o dan ofal ei gweinidog, y Parchedig Ddr. D. Ben Rees a Mrs Margaret Anwyl Williams wrth yr offeryn.

Methodd y Parchedig Ioan Wyn Gruffydd ddod atom ar y Sul, Medi 23ain oherwydd salwch a diolch i'r aelodau hynny a syrthiodd i'r adwy ar fyr rybudd a chynnal oedfa o addoli buddiol a gwerthfawr. Yn absenoldeb ein horganyddion cymerodd Mr. Roderick Owen at y cyfrifoldeb. Dymunwn yn dda i Mrs Norma Owen a fydd yn derbyn llawdriniaeth y dyddiau nesaf hyn a da clywed bod Dr. Huw Rees, Mossley Hill adref o'r ysbyty. Anfonwn ein cofion anwylaf i'r ddau. Anfonwn ein cofion at holl aelodau'r eglwys sydd yn methu a dod i'r oedfaon oherwydd amrywiol amgylchiadau.



***Noson y cwis***

Tachwedd 2018 _Layout 1 18/10/2018 10:32 Page 5

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Braf iawn i ni selogion Seion oedd cael croesawu 22 o aelodau Capel Pentrecelyn, Dyffryn Clwyd i'n hoedfa, a balch oeddem o weld plant yr Ysgol Sul yn y fintai. Gwasanaethwyd gan cyn-weinidog Capel Pentrecelyn, y Parchedig John Owen, Rhuthun a rhoddodd air i'r plant a'n harwain yn odidog yn yr addoliad. Ar derfyn yr oedfa aeth pawb ohonom i'r Festri am luniaeth a baratowyd gan chwiorydd Seion. Cafodd yr ymwelwyr ei boddhau o weld yn yr Ysgoldy Gadair hardd Eisteddfod Pentrecelyn 1923 pan enillwyd hi gan Gôr Meibion Cymry Wallasey. Bu'r Gadair yn rhan o ddodrefn Capel Presbyteraidd Cymraeg Rake Lane am flynyddoedd ar ôl i Gymdeithas Cymry Wallasey ddod i ben. Gofalodd Mr. Glyn Roose Williams i'w chadw yn ddiogel yn adeiladau Seion, Laird Street. Hyfryd oedd fod merch y diweddar Mr. Glyn Roose Williams yn bresennol sef Mrs Olwen Roose Jones.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda Mr. Gwyn Jones yn ei brofedigaeth o golli ei unig frawd. Bu'r cynhebrwng yng nghapel y Tabernacl, Rhuthun.

Cynrychiolwyd eglwys Seion yn Neuadd y Ddinas Lerpwl gan Mrs Mair Rees Jones ynghyd a Phyllis O'Neill. Braf oedd cael y profiad hwnnw.

## Noddfa Oaker Avenue

***Noson Gerddorol –*** Pan ddaeth Elfair Grug atom yn gynharach yn y flwyddyn i ofyn a fuasai'n bosibl defnyddio y capel yn Oaker Avenue ar gyfer cyngerdd gyda'r delyn ym mis Medi, yr unig bryder gennym oedd ynghylch nifer y gynulleidfa. Mae blynyddoedd lawer ers pan yr oeddym yn agor tymor newydd y Gymdeithas gyda noson o adloniant ac amhosibl oedd amcangyfrif faint fyddai'n dod i wrando. Noson oedd hon o dan nawdd *'2018 UK Harp Association Emerging Artists'* i roi cyfle i delynorion ifanc ddangos eu talent – ac am ddau dalentog! Mae Ifan Llywelyn Jones, o Felinfach, wedi astudio yng Nghaerdydd a Salzburg ac yn enillydd y wobr gyntaf yn Eisteddfod Llangollen yn ogystal a sawl gwobr arall. Elfair, o ardal penrhyn Llŷn, wedi cael gyrfa ddisglair yn y Coleg Cerdd, Manceinion, yn awr yn ymddangos yn aml yng Nghymru a gogledd Lloegr, ac yn ddiweddar wedi cyhoeddi crynoddisc gyda cwmni SAIN gyda'r teitl *Perlau Pefriol*. Yn rhan gyntaf y rhaglen cawsom ddatganiad unigol gan Llywelyn yn cynwys amrywiaeth o waith cyfansoddwyr fel John Thomas, G.F. Handel, Ivor Novello a Morfydd Lloyd Owen, ac yna yn yr ail ran, deuawdau gan Llywelyn ac Elfair yn chwarae cyfansoddiadau Schubert ac Osian Ellis. A'r gynulleidfa? Anghofiais ddweud fod y capel dan ei sang, pawb wedi gwrando yn astud ac wedi rhoi cymeradwyaeth ardderchog i'r ddau ar y diwedd. Dechreuad da i dymor newydd.

Aeth criw ohonom o Ddosbarth Manceinion i Drawsfynydd i ymweld a chartref Hedd Wyn, gan alw yn 'Byd Mary Jones' ar y ffordd.

*– Lluniau gan Elwyn Evans*



***Criw Manceinion yn Yr Ysgwrn***



***Criw Manceinion yn 'Byd Mary Jones'***



***Noson Gerddorol yn Oaker Avenue***




***Llewelyn Ifan Jones ac Elfair Grug Dyer***

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Cawsom noson gartrefol, hyfryd ar Medi 10fed i agor y tymor newydd. Croesawyd ni yn gynnes gan Mrs Mair Rees Jones, llywydd y noson, ac yna cael sbel i ymaelodi, cyfarch ffrindiau a rhannu hanesion am yr haf braf. Talodd Mair deyrnged i Eira Wyn Hughes am ei gwaith dros y blynyddoedd i'n Cymdeithas, ei thalentau ym myd crefft, a'i dawn fel siaradwr a chyflwynydd. Teimlwn ei cholled yn arw. Yna clywsom atgofion dyddiau ysgol gan Glenys, Iola ac Eirwen, y dair wedi treulio blynyddoedd yn dysgu ac yn cael eu dysgu. Gwelwyd pawb yn cofio'u hamser mewn ysgolion ledled gogledd Cymru a hawdd oedd rhannu atgofion digon tebyg.

Ar Medi 24ain daeth y Parch Robert Parry, Wrecsam atom i gynnal y gwasanaeth sy'n draddodiad gennym ar ddechrau tymor newydd. Mrs Phyllis O'Neill oedd llywydd y noson gan roi croeso cynnes i gyfaill annwyl iawn yn ein Cymdeithas ac yn Seion. Cyfeiriodd Phyllis at Eira, aelod blaenllaw a gweithgar, a dewisodd rhoi offrwm y noson at Gŵn Tywys er cof am Eira. Dewisodd y Parchedig, ddarlleniadau o Lyfr Exodus, pennod 34, ac o ail lythyr Paul at y Corinthiaid, pennod 3 - adnodau sy'n cyfeirio at wyneb Moses yn disgleirio wedi iddo fod gyda Duw. Wrth gyfarfod â Duw, fe sancteiddiwyd Moses ac felly ei neilltuo i bwrpas arbennig sef cyflwyno dymuniad Duw yn y Deg Gorchymyn. Dylai Cristnogion ym mhob oes fod wedl eu neilltuo i ledaenu'r deyrnas a dangos Crist i'r byd. Dylwn fod yn "halen y ddaear ac yn oleuni'r byd", yn y byd ond nid o'r byd. Fel y disgleiriodd wyneb Moses, dylai ein bywyd a'n cymeriad ni, fel Cristnogion, ddangos i'r byd ein bod wedl cyfarfod â Duw, a threulio amser yn ei gwmni. Ond sylwer nad oedd Moses yn ymwybodol o hyn, roedd rhaid i eraill sylwi ar y trawsnewid ynddo.
Clywn hanesion am ysblander a gobaith i'w gweld yng ngwynebau ar wely angau, ac yn fwy na neb roedd gogoniant Duw i weld yng ngwyneb Iesu Grist. Sialens i bob Cristion yw i ni fod yn ddrych i drosglwyddo cariad Crist i'r byd. "A boed i eraill, trwof i, adnabod cariad Duw."

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Yr ydym yn falch dros ben fod dinas Lerpwl wedi estyn anrhydedd arbennig i'n gweinidog, Dr. D. Ben Rees, a chawsom gyfle i sôn am hyn yn ein hoedfa pan oedd ef gyda ni yn gwasanaethu ym mis Medi. Soniodd John P. Lyons yn y seiat am ei ffyddlondeb a'i gyfraniad i gymaint o gymunedau o bob traddodiad. Cofiwn am anhwylder Mr. David Weaver, Birkdale, priod Phyllis sydd mor selog i'n hoedfaon. Gofidiwn o glywed am yr anhwylder a gweddïwn y caiff y teulu nerth i ofalu am un sydd mor annwyl iddynt. Braf gweld Mr Marc Lyons yn ein plith ac am ei gyfraniad i Gystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl yn Woolton ar ddechrau mis Medi. Dyma'r bumed waith i'r Gystadleuaeth gael ei chynnal ac mae'n ffordd arbennig i godi arian. Deallwn bod yr elusen, *Gobaith mewn Gweithrediad* (*Hope in Action*) yn bwriadu adeiladu Ysgol Uwchradd yn Uganda yn 2019, ac edrychir ymlaen i glywed mwy am hyn fel y medrwn ymateb i achos mor deilwng. Sefydlwyd yr elusen yn 1989 gan Hefin Rees a'i dad Dr. D. Ben Rees.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Agorwyd rhaglen 2018/2019 gyda noson arbennig. Cawsom y fraint o gwmni Alejandro Jones a'i deulu o Batagonia. Mae'r teulu wedi bod yng Nghymru ers bron i chwe mis ac yn aros yn Llanuwchllyn ond byddant yn dychwelyd i Batagonia yn fuan. Roedd dau hen hen daid Alejandro sef T Dalar Evans ac Aaron Jenkins ar y 'Mimosa' yn hwylio o Lerpwl yn 1865. Ffermwyr yw ei deulu ac mae wedi dilyn ei dad yn y gwaith yng Nghwm Hyfryd. Mae cerddoriaeth wedi bod yn rhan o'i fywyd erioed a chwarae'r gitâr hefyd. Braf oedd clywed Alejandro yn siarad yn Gymraeg a Sbaeneg. Cawsom ein diddanu gyda amrywiaeth o ganeuon yn y ddwy iaith sef emynau a chaneuon Cymraeg, caneuon o Batagonia, caneuon ar ffurf y 'tango' a chaneuon am waith y 'gauchos'. Gorffenodd y noson drwy ganu yr emyn 'Calon Lân' ar yr alaw Gymreig 'Deio bach'. Yng ngeiriau Mr Roderick Owen, Llywydd y Gymdeithas roedd cael Alejandro i ddod atom yn sgŵp. Noson fythgofladwy a phawb wedi ei mwynhau yn fawr iawn. Diolch hefyd i Mrs Nan Hughes Parry am drefnu'r bwffe cyn yr adloniant.

Ar 25ain Fedi daeth Dr. Elwyn Hughes atom i sôn am hanes Dyffryn Ogwen drwy ddangos lluniau. Dywedodd yr Arglwydd Goronwy Roberts mai Dyffryn Ogwen oedd y dyffryn harddaf yn y byd. Gwelsom lawer o luniau o Fethesda a llefydd eraill yn Nyffryn Ogwen ac amryw o luniau o chwarel y Penrhyn sef y chwarel lechi fwyaf yn y byd. Gwelsom lun o bonciau y chwarel, llun o'r cabanau sef cytiau bwyd y chwarelwyr a'r chwarelwyr wrth eu gwaith ar wyneb y graig ac yn tyllu'r graig cyn paratoi ffrwydriad. Yn gynharach eleni gwelsom y ffilm 'Un nos ola Leuad' yn Lerpwl. Roedd y llyfr wedi ei ysgrifennu gan Caradog Pritchard, un o Fethesda. Dangosodd Dr. Elwyn Hughes luniau o rai o gymeriadau Bethesda, y mae sôn amdanynt yn 'Un nos ola leuad'. Noson ddiddorol a hwyliog.

## Cymanfa Ganu Dosbarth Lerpwl


**gan Nan Hughes Parry**

Ar bnawn Sul, 30 Medi 2018 cynhaliwyd Cymanfa Ganu ym Methel o dan drefniant Pwyllgor Mawl y Dosbarth, a braf oedd gweld y capel yn llawn. Cyflwynwyd a chroesawyd y cantorion a Chôr y Ffin i'n plith gan y Parchedig Ddr. D. Ben Rees ac ef a gymerodd y rhannau arweiniol. Trosglwyddodd yr awenau i'r arweinydd, Geraint Roberts, Prestatyn, gŵr dawnus a gofiai Dr. Rees yn faban yn ei grud yn Ystumtuen yng ngogledd Ceredigion. Bu graen ar y canu o dan ei arweiniad, a chafwyd pedair eitem gan Gôr y Ffin o dan arweiniad Rhiannon (merch y diweddar Mr a Mrs Owen Owen, Garston fel y cofier hwy), yr Is-arweinydd a Geraint Roberts yn cyfeilio.

Daeth Mrs Anne M. Jones, Allerton ymlaen i draddodi anerchiad y Llywydd, a gwnaeth hynny yn bwrpasol a pherthnasol i'r Gymanfa. Ar derfyn yr ail ran talodd R. Ifor Griffith ddiolchiadau cywir fel Llywydd y Pwyllgor Mawl i'w gyd swyddogion, Rhiannon Liddell, ysgrifennydd a Eryl Dooling, Trysorydd, ac yn arbennig Mrs Margaret Anwyl Williams fel organydd y Gymanfa gofiadwy hon. Ar derfyn y Gymanfa aeth y gynulleidfa hardd i'r Ganolfan i fwynhau gwledd a baratowyd ar ein cyfer, pob math o ddanteithion, a diolchir am drefniadau a Chymanfa a hir gofir. Teimlem yn bur ddiolchgar ein bod yn medru mwynhau Cymanfa fel hon a hynny ar lannau Merswy yn 2018 gan gofio mai tair eglwys sydd yn sylfaen i'r digwyddiad. Ond gwerthfarwogwn ein bod wedi cael tair rihyrsal o dan ofal R. Ifor Griffith i baratoi'r Gymanfa.

# MYFYRDOD AR Y PREGETHWR - DR. D. BEN REES

**gan Roderick Owen**



Ni allwn fyfyrio ar fywyd a gwaith gwrthrych ein diolchgarwch heddiw heb feddwl amdano fel pregethwr. Yn ei hanfod mae Dr. Rees yn adnabyddus drwy Gymru gyfan fel pregethwr grymus, tanllyd ar adegau pan mae yn mynd i hwyl, ac fel gweddïwr arbennig. Mae galw arno gan bob enwad i gyflwyno yr efengyl, a tybiaf mae ef a welir fel y pregethwr mawr olaf yn ein pulpudau ymneilltuol.

Ie, nid ydym yn clywed am bregethwyr mawr mwyach fel ag ers talwn, yr hoelion wyth fel y cyfeirwyd atynt. Yn oes aur ymneillduaeth Cymraeg pregethu oedd hanfod oedfaon yr enwadau i gyd. Cofiaf yn dda fel y caed Cyfarfodydd Misol pregethu yn ardal y Bala ar ddechrau pob blwyddyn a'r disgwyl mawr a fyddai i gael gwybod pwy o'r hoelion wyth oedd wedi derbyn gwahoddiad i ddod i bregethu. Dyna'r dyddiau pan y caed dau gennad am ddau ddiwrnod yn pregethu pnawn a nos yng Nghapel Tegid, a gyda balchder y gallaf ddweud bod ein Gweinidog ni wedi cael gwahoddiad i fwy nag un o'r rhain dros y blynyddoedd.

Cofiaf yn dda hefyd y dyddiau hynny yng nghanol y chwedegau pan oeddem ni yma yn Lerpwl yn edrych am weinidog gyda'r ddawn i bregethu'r gair a chanddo y ddawn hefyd i'n hysbrydoli a'n harwain. Daeth gwybodaeth am weinidog ifanc gweithgar grymus oedd yn gweinidogaethu yng Nghwm Cynon yng Nghymoedd y De a rhoed gwahoddiad iddo ddod atom ar ei brawf. Mawr oedd y ganmoliaeth am ei ddwy bregeth brawf yma yng Nghapel Heathfield Road yn Nhachwedd 1967, ac am ei bererasiwn lle dyfynnodd y pennill,

*Gwna fi fel halen trwy dy ras*
*Yn wyn, yn beraidd iawn ei flas.*
*Yn foddion yn dy law o hyd*
*I dynnu'r adflas oddiar y byd.*

Ie rhaid a rhaid oedd rhoddi galwad iddo ddod o'r tri oedd ar brawf. Gallwch ddychmygu mae ar ôl dipyn o drafodaeth teuluol y derbyniodd yr alwad, i newid byd o gymoedd y De a dyfod atom i Ddinas fawr Lerpwl i weinidogaethu.

Prin y tybiem bryd hynny y byddai yma am hanner can blynedd a ninnau yma heddiw yn dathlu hynny. Ie hanner can blynedd a gallwn ddweud bod dwy genhedlaeth o'r aelodaeth gwreiddiol bellach wedi ein gadael.

Cofiaf ei ddyfodiad yma yn dda, fel yr aeth i ymweld a phob aelwyd yng nghwmni un o'i flaenoriaid ac fe ymdaflodd ei hun i bob agwedd o'r bywyd cymdeithasol Cymraeg a oedd yn bodoli yma yn Lerpwl ar y pryd. Yn mabolgampau blynyddol Dydd y Cymru yn Otterspool ac yntau yn ffansio ei hun gyda dipyn o fôn braich fel taflwr pwysau, ac yn bodloni fod yn ôl-geidwad heb ei ail ar gae pêl-droed.

Ond cofiwn mai fel teulu y daethant yma i Lerpwl, ei wraig Meinwen a Mrs Sarah Llewelyn, mam Meinwen fel brenhines y teulu, a dim ond Dafydd ar y pryd, hogyn digon direidus bywiog iawn fel y cofiaf ac yn uniaith Gymraeg. Yn ddiweddarach fe ddaeth Hefin i gwblhau'r teulu fel yr adnabyddwn hwynt heddiw. Fe gafodd ein gweinidog pob cefnogaeth ar ei aelwyd yn Garth Drive i gyflawni ei alwedigaeth yma, ac mae yr hogiau bellach yn fawr ei gofal o'i rhieni.

Ymdaflodd Meinwen hefyd i'r bywyd newydd oedd yn ei gwynebu yma gyda ni, aelod ffyddlon o Barti Maesgrug a daeth ei dawn arbennig fel adroddwraig i'r amlwg yn fuan iawn. Anghofiwn byth ei dehongliad o Seimon Mab Jona a Cwm Tawelwch gyda'i hacen ddeheuol hyfryd yn cyfanu'r cyfan.

Credaf i Dr. Ben gael ei ysbrydoli yn fawr yng nghapeli Glannau Mersi, a bellach yntau wedi pregethu yn ddiwyd ym mhulpudau Garston, Bethania ac yma ym Methel fel Gweinidog a bugail, ac yn holl gapeli o bob enwad ar ddwy ochr i'r Afon Mersi.

Yn sicr mae ein gweinidog wedi cael ei ysbrydoli i arwain addoliad a phregethu'r gair, dysgu'r ffydd yn ein seiadau amrywiol a gweinidogaethu'r Sacramentau yn ei ddull unigryw ei hun. Gwyddom ei fod yn gwneud hyn yn bresennol gyda poen corfforol eithriadol ac eto yn mynnu cyflawni ei weinidogaeth yn ddifeth. Fel y cyfarfyddais a chyfaill ar stryd fawr y Bala dydd Sadwrn diwethaf a hwnnw yn gofyn y cwestiwn a gaf yn amal iawn gan wahanol bobol, "sut mae Ben Rees y dyddiau yma?" Fy ateb braidd yn ddireidus oedd "Wel, mae pen Ben Rees yn ardderchog ac mor chwim ac erioed ond mae pen arall ei gorff dipyn yn styfnig!"

Hoffwn gyfeillion petae ein meidroldeb yn fy ngalluogi i ddweud "edrychwn ymlaen am yr hanner can blynedd nesaf," ond yn anffodus ni allaf. Ond, gallaf ddweud yn ddiffuant, "edrychwn ymlaen am lawer blwyddyn eto o arweinyddiaeth, efengylu, pregethu a gofal bugeiliol gan ein cyfall o Weinidog yr Efengyl.

Ein braint ni oedd ei gael am yr hanner can mlynedd diwethaf, mae wedi cyfoethogi ein bywydau ac wedi gadael ei stamp arbennig arnom ni ac ar Ddinas Lerpwl.

Diolch iddo ac i'r teulu oll am ei gefnogi ym mhob agwedd o'i alwedigaeth yma ar Lannau Mersi a thu hwnt. Pob bendith ichwi gyd i'r dyfodol.

***(Traddodwyd ar fore Sul, 22 Gorffennaf 2018 yn Oefa Dathlu 50 mlynedd Dr. D. Ben Rees ym Methel)***

Tachwedd 2018 _Layout 1 18/10/2018 10:32 Page 8

***Myfyrdod***

# TRYSORAU'R COF

Fe fydd Sul y Cofio yma eto gyda hyn gyda'i holl hiraeth a'i ofid. Eto, bendith yn sicr i lawer a melltith i eraill. Mae llawer o bethau mewn bywyd nad ydynt yn werth eu cofio ac ar y llaw arall mae llawer o bethau buasai'n dda eu hanghofio. Er dweud hyn, yn sicr ni fuasai neb yn dymuno bod heb yr allu i gofio. Sylwch, rydw i'n siwr, fel rydym yn heneiddio mae bywyd yn mynd yn fwy o atgofion.

Cofiaf Annie, Tŷ Canol, gyda'i mab Emlyn. I'r ardal "mab y Diafol" a bu farw mewn damwain erchyll ond i Annie, soniai byth a hefyd am ei anwyldeb, serchogrwydd ac ufuddod er mor ddrwg oedd ond "gwyn a wêl y frân ei chyw". Atgofion – ynte?

Heddiw, am ryw bum munud, tybed wnewch chwi ddarllenwyr *Yr Angor* droi i Ail Lyfr Timotheus, pennod 1, a darllen pennod fwyaf am y COFIO, medd rhai. Yma mae'r cofio CYSON "mor ddi-baid y mae gennyf goffa amdanat yn y gweddïau nos a dydd".

*At the going down of the sun and in the morning*
*We shall remember them.*

Ac nid oes dim yn fwy cyson na chodiad a machlud yr haul. Mae'n cofio cysurlawn hefyd gan fod yr Arglwydd wedi diddymu angau ac anllygredigaeth i oleuni drwy'r Efengyl.

*They will not grow old as we who are left grow old*
*Age shall not weary them nor the years condemn.*

Y mae cysur mawr yn hyn. Tom Nefyn wrth fedd "hen dramp" ym mynwent Tudweiliog a ddywedodd: "Nid wrth dyddiadau moel y bernir oes dyn ond wrth 'Troeon yr Yrfa' a gofir wrth Groes Calfari, nid *time-table*."

Ydy mae'n bryd "hands together" – "eyes closed" a chyda meddyliau dwys i ddiolch am aberth amhrisiadwy y "bechgyn a'r merched" (dyna beth oeddynt ynte?)

Cofiaf yn Seiat, Calfaria, Porth llawer, llawer o flynyddoedd yn ôl am William Tomas, Caemawr yn dweud ar ôl clywed fod ei fab yn "missing, presumed killed". Gofynnai os oedd colled ei fab yn werth yr aberth, a dyma yr hen Dafydd Lawrence (un o arwyr y Somme) yn dweud "William, beth ddylem ofyn, a ydym werth yr aberth a wneir drosom".

Gweddiaf – 'O Grist y Groes, cymorth ni a ddihangodd rhag y cledd i beidio a dianc rhag ein cyfrifoldeb i'r rhai a aeth yn ebyrth iddo? AMEN

**ELWYN PARRY**


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

Tachwedd 2018 _Layout 1 18/10/2018 10:32 Page 9




*Energlyn,*
*Caerffili*
*CF83*
*Medi 21ain, 2018*

### COFIO DYDDIAU ABERCYNON

*Annwyl Olygydd, Meinwen a'r teulu,*

Yn y lle cyntaf oll – ymddiheuriad diffuant am fod mor hir yn sgwenu. Roeddwn wedi bwriadu gwneud ym mis Gorffennaf ond fe aeth yn "siop shafings". Ta waeth, gyfaill annwyl, derbynia fy llongyfarchiadau cynhesaf ar yr holl anrhydeddau a ddaeth i dy ran y flwyddyn hon. Cofia, nid di-bwys ydy'r anrhydeddau yma ond, yn sicr, dymuniad lluoedd am dy holl waith ym mywyd y Cymry ond yn fwy pwysig, fel wyt yn dweud yn dy lyfr ar ôl clywed yr annwylaf Tom Nefyn yn pregethu "Rhoi fy hun i waith Duw am byth fel gwas yr Arglwydd Iesu" ac fe gedwais dy air. *Well done, double well done!!!*

Cofiaf, erbyn heddiw braint fawr ofnadwy ydy dy adnabod di, a chofiaf y tro cyntaf wnes dy gwrdd yn Tabernacl, Abercynon ar ôl cael dy sefydlu. Cofio Arthur Jones wrth ei fodd. Un o 'thesda yr "how gets" chwedl ninnau. Pawb yn y dref yn cyfarch *"How he's getting on?"!!* Bues yn pregethu yn Abercynon ac roedd wastad croeso twymgalon yno ac fe wnest "double booking" ac Arthur yn ffonio a gofyn imi fynd i Hermon, Penriwceibir ar dy ran. Roedd cefnder fy nhad a'i deulu yn aelodau yno, Laura ac Wmffre Jones Rheola St. Mae gen i gof hefyd o hen wraig yn sôn amdanat a dweud "Mae ei dalent a'i frwydfrydedd yn weddus i Eglwys fawr" ac yn wir fel dywedodd Arthur wrthyf "Cadwa dy lyfr bach ar agor achos byddem yn siwr o'i golli" Ac felly bu.

Wel, am wn i, dyna'r cyfan am y tro. Yn sicr mae Meinwen (*the POWER behind the Throne*) a'r teulu yn falch tu hwnt ohonot. Meddwl amdanat, ac yn dymuno pob bendith sy'n bosibl yn y dyfodol a nerth i fynd ymlaen i sôn "Ymhlith a fu neu yntau ddaw, Does debyg iddo Fe". Mae gen i lyfr yn dod allan rywbryd – cei gopi gennyf!!

*Mor falch ohonot*

*Yn ddiffuant iawn, iawn,*

**Elwyn Parry**

*Rhostrehwfa,*
*Llangefni,*
*Môn LL77*

*Annwyl Olygydd,*

### EISTEDDFOD Y GLOMEN WEN

Rwyf wedi darllen gyda diddordeb mawr, yr erthygl a ysgrifenwyd gan Roderick Owen am yr Eisteddfod uchod, ac hefyd wedi mwynhau gweld llun y darian.

Fe aeth â fi lawer o flynyddoedd yn ôl a llawer o atgofion gan imi fod yn ddisgybl yn Ysgol Mersey Park yn niwedd y 1930au, ac mewn blynyddoedd wedyn bûm yn gweithio fel ysgrifenyddes yn Ysgol Rock Ferry Primary. Bûm yn cystadlu yn y canu unigol yn yr Eisteddfod a chofiaf i Trefor Roberts fod yn ddisgybl yn Ysgol Mersey Park hefyd.

Rwyf wedi byw yn Sir Fôn ers 50 mlynedd ac yn awr yn byw yn Rhostrehwfa, lle cyfarwydd iawn i Mair Rees Jones o Benbedw.

**Doris Thomas**

## *Colofn y Beirdd*

Dyma ymgais englyn debyg sydd yn mynegi yn ddiffuant angerdd ac edmygedd y bardd Eryl Lloyd Chitty o'i mam – Gol.

### *Mam*

Ei gwedd yn hardd a chlên
A'i chroeso'n llon a diben.
Gyda'i chalon bur a'i
chreadigol ben,
Cariad yw crefydd Olwen.

*Eryl Lloyd Chitty.*
*2001*

***Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain o Eglwys Bresbyteraidd Cymru***


**Darlith i gofio Canmlwyddiant Diwedd y Rhyfel Mawr 11-11-1918 yng Nghapel y Groes, Wrecsam ar Nos Fercher, 7 Tachwedd 2018 am 7 o'r gloch**

Traddodir y ddarlith gan y Parchedig Ddr. D. Ben Rees ar y testun

**Cloriannu y Rhyfel Byd Cyntaf (1914-1918)**

Llywydd:
Parchg. Huw Powell-Davies, Wyddgrug
*(Cadeirydd Pwyllgor Bywyd a Tystiolaeth)*

# CORNEL Y TRYSORYDD



### TACHWEDD 2018

| | |
|---|---|
| Y Parch a Mrs R. E. Hughes, Nefyn | £11.00 |
| Mr a Mrs Eurfryn Davies, Llandegfan | £30.00 |
| Mr. Aled Lewis Evans, Wrecsam | £21.00 |
| Mr. John Thomas, Allerton | £50.00 |
| **Cyfanswm** | **£112.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

***Ail wampiwyd y golofn hon!***

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor*.
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30. ***Cofier os ydych am anfon Cyfarchion adeg y Nadolig, y bydd yn rhaid cael eich cyfarchiad i'r Golygydd (tâl £5) erbyn dydd Iau, 1 Tachwedd 2018.***
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Rhagfyr 2018 / Ionawr 2019** erbyn dydd Iau, 1 Tachwedd, 2018 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i benatgarthdrive@talktalk.net
- **Rhifyn Chwefror 2019 –** erbyn dydd Iau, 3 Ionawr, 2019 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd am 1 o'r gloch ar ddydd Iau, 3 Ionawr, 2019.
- **Rhifyn Mawrth 2019** – erbyn bore Gwener, 1 Chwefror, 2019 gan y bydd y cyfan yn sach y postman am Gymru erbyn hanner dydd y diwrnod hwnnw.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Cofier hysbyseb Dathlu** geni, hanes a chyfraniad *Yr Angor* am bron i 40 mlynedd. ***Dyddiau'r Dathlu: Sadwrn, 20 Gorffennaf a Sul, 21 Gorffennaf.***

# *GWLEDD I'R CYMRY HYDREF/TACHWEDD*

***yn y Ganolfan (Canolfan y Cymry)***
***Auckland Road / Heathfield Road, Lerpwl L18 0HX***
***(can llath o Allerton Road, Church Road / Penny Lane)***

**HYDREF 2018**

**NOS LUN, 29 HYDREF – Noson Cymdeithas Lenyddol Bethel. Disgiau Ynys Afallon yng nghwmni Mrs Wena Evans a Miss Carys Jones gyda Mr. R. Ifor Griffith yn arwain o ddisg i ddisg.**

**NOS FAWRTH, 30 – Ymweliad Parchedig Dr. Euros Wyn Jones, Rhosmeirch, Môn. 'Cymru a Manipiur'. Llywydd: Mrs Norma Owen (dymunwn yn dda iddi ar ei llawdriniaeth dechrau'r mis)**

**TACHWEDD 2018**

**NOS FAWRTH 6 – Guto Williams (Griff Rowland) yn darlithio ar 'Cyfarwyddo Drama' gyda Nan Hughes Parry wrth y llyw.**

**NOS LUN 12 – Y Gymdeithas Lenyddol yn trefnu 'Pawb a'i Farn' gyda panel o safon: Dr. Rhys Davies, y meddyg amryddawn; Mrs Rhiannon Liddell, Wavertree a Brian Thomas, Mossley Hill gyda Dr. D. B. Rees yn holi ac yn gwahodd cwestiynau erbyn 7.20 ar 12/11/2018.**

**NOS FAWRTH, 13 – Hywel Edwards, Wyddgrug, awdurdod ar drefnu yr Eisteddfod Genedlaethol. Llywydd: Dr. John G. Williams (Gwydrin).**

**NOS FAWRTH 20 – Ymweliad Mrs Mair Carrington Roberts o Llanfair P.G., Môn ar 'Cerddoriaeth traddodiadol Cymru' a'i ffrind Dr. Pat Wiliams yn ei chyflwyno.**

**NOS LUN, 26 – Noson fuddiol ddiddorol a gwahanol yng nghwmni Dysgwyr yr Iaith. Croesewir hwy gan Lywydd y Gymdeithas Lenyddol a bydd y noson yn nwylo Mike Farnworth, trefnydd y dosbarthiadau.**

**NOS FAWRTH, 27 – Dr. Gareth Huws ar 'Llongddrylliad y llong Leinster' a cheir y cadeirio yn nwylo Alun Davies, y Trysorydd.**

***Dewch Gymry i'r Ganolfan mor gyson ag y gallwch. Cewch groeso heb ei fath a threfnir lluniaeth ar ddiwedd pob cyfarfyddiad ar y ddwy noson***

**CRWYDRO CYMRU**

# LLYN GEIRIONYDD

Uwchlaw pentref Trefriw y mae llyn na wêl y teithiwr cyffredin mohono, sef Llyn Geirionydd. Nid yw mor adnabyddus a Llyn Cowlyd neu Lyn Crafnant sydd yn yr un mynydd-dir. Mae angen ymdrech i wneud y bererindod i'w weld ac y mae'r llun hwn yn ei ddangos yn wych i bawb sy'n dymuno aros yn ei gadair esmwyth ac edrych arno o bell.

Gŵr a anwylodd y llyn hwn a dewis ei enw fel ei enw barddol oedd Evan Evans (1795-1855) a ddaeth i'w adnabod fel Ieuan Glan Geirionydd. Ganed ef yn Nhrefriw ond treuliodd y rhan helaethaf o'i oes yn alltud yng nghylch Caer. I ddechrau bu'n argraffydd ond o 1826 hyd 1852 bu'n gurad ac offeiriad yn eglwysi esgobaeth Caer. Ei blwyf cyn symud i Drefriw ym 1852 oedd Ince, sydd bellach yng nghysgod diwydiant olew Ellesmere Port. Y mae'r eglwys yno yn dyst o hyd, fel y byddai'r bardd yn dymuno.



Ysgrifennodd emynau sy'n dal i gael eu canu, er enghraifft, *'Mor ddedwydd yw y rhai trwy ffydd'*, ac y mae ei delyneg Glan Geirionydd yn hyfryd ei gwead. Cyfrifir ef yn un o feirdd pwysicaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn llenyddiaeth Cymru.

***D.B.R.***

## *Dathlu Deugain Mlynedd o'r Angor 1979 - 2019*

***Bydd y Dathlu hwn ar benwythnos Sadwrn, 20 Gorffennaf a'r Sul, 21 Gorffennaf***

***Trefnir ar hyn o bryd ond gobeithiwn cael rhaglen fel ag a ganlyn.***

***Bore Sadwrn, 20 Gorffennaf 2019***
***yn y Ganolfan (Auckland Road neu'r Capel (dibynnu ar y nifer a ddaw i ddathlu) o 10.30 i 1 o'r gloch.***

***Dae Dylan Jones (BBC Cymru) i draddodi y ddarlith gyntaf***

***Dwy Sesiwn – 10.30 i 11.30 a 11.45 i 1 o'r gloch ar Newyddiaduraeth a Phapurau Bro gydag golwg ar Yr Angor***

***Pnawn Sadwrn (2.30 o'r gloch)***
***Cyngerdd a bwriada Robin Huw Bowen ddod atom gyda'i delyn a gwahoddir eraill.***

***Nos Sadwrn am 7.30***
***Cinio yng Nghlwb Golff Woolton.***
***Gŵr gwadd: Dr. Huw Edwards, Llundain.***
***Bydd y gyfrol o ysgrifau ac eitemau o'r Angor yn cael ei chyflwyno.***

***Sul, 21 Gorffennaf***
***Oedfa (10.30 - 11.45)***
***Cinio (12.00 - 1.30)***
***Cymanfa Ganu (2 o'r gloch)***

***Daw rhagor o fanylion y rhifyn nesaf***

## Celebrating our links with Wales through our Citizen of Honour Rev D Ben Rees

The Reverend Doctor Professor D Ben Rees be admitted to the Roll of Citizen of Honour in recognition of his enormous contribution to the City of Liverpool and its Welsh community since 1968. Not only leading his beloved Bethel Church but supporting our other Welsh Churches of every denomination.

He is known in the city as not only a great community leader, prolific author and for his ambassadorial work but as the founder of the Liverpool Welsh newspaper 'Yr Angor'.

Lord Mayor, Cllr Christine Banks, said: "I know his community is very proud of his contribution and leadership."

"There has always been a strong affinity between Wales and Liverpool and those strong links remain today."

"Liverpool's Welsh community is embedded in our rich cultural history through working on the docks, commerce and industry. To be able to celebrate our shared history in this way is very special for us."

"Reverend Ben Rees is a true son of both Wales and Liverpool and a fantastic ambassador for both."

The Reverend Doctor Professor D Ben Rees said; "To be acknowledged by the city of love for doing work for the country I love is overwhelming.

"I'm so incredibly proud to have been able to promote and support the welsh community in Liverpool. To be recognised in this way is truly humbling."

***Press release from Liverpool City Council***

CYMRAEG

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

# CYSTADLEUAETH GOLFF CYMRY LERPWL 2018



*Marc Lyons a'i lwyddiant*



*Beryl Williams ac Ann ap Thomas*

Cynhaliwyd pumed Cystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl yn 'nechrau mis Medi. Bu 26 yn chwarae a 52 yn ciniawa. Llongyfarchiadau i Marc Lyons am ennill cystadleuaeth y dynion ac Ann ap Thomas yn ennill gwobr am ei chywirdeb yn taro y pêl agosaf at y seithfed twll. Roedd bob aelod o'r tîm buddugol yn Gymry. Gwaethpwyd elw o £1500 sydd yn cael ei rannu rhwng Uned Toriadau Gwddf y Femur, Ysbyty Frenhinol Lerpwl a Chronfa Dathliadau yr Angor 2019. Diolch i bawb am eu cefnogaeth hael i'r achlysur yma.



*Y tîm buddugol (o'r chwith i'r dde) Richard Hughes, Alun Davies, Beryl Williams, Dr. John G. Williams ac Eric Goodwin*





*Y Golffwyr a'r Gwesteion*